**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y Cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 10fed o Fai 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y.p.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G Brandrick (Rheolwr Datblygu SLDC); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth Gweithredol); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Y Cyng G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |
| K Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol ymuno mewn munud o dawelwch er cof am y Diffoddwr Tân Gareth Evans o'r Wyddgrug a fu farw ym mis Ebrill. Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod Diffoddwr Tân Evans wedi marw yn dilyn cyfnod hir o waeledd; fe fynychodd nifer fawr o bobl yr angladd ac roedd yn hynod urddasol. Roedd swyddog o'r Gwasanaeth wedi bod yn cysylltu â/cefnogi'r teulu dros yr wythnosau diwethaf.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

1.1 Dim.

2 COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1AF CHWEFROR 2010

2.1 Cymeradwywyd y cofnodion a gynhaliwyd ar Chwefror 1af yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Y broses ar gyfer penodi Prif Swyddog Tân Cynorthwyol -yn dilyn proses gyfweld drwyadl a gynhaliwyd yn gynnar ym Mis Mawrth, cafod Ruth Simmons ei phenodi i'r swydd.

4 DRAFFT CYNTAF Y CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG AR Y CYD 2009-12, A'R DDOGFEN YMGYNGHOROL GYSYLLTIOL

4.1 Cyflwynwyd y papur i'r Aelodau gymeradwyo drafft cyntaf y Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd 2009-12 a'r ddogfen a holiadur ymgynghoriad gysylltiol.

4.2 Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod yr Awdurdod, o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiweddar, fod rhaid i'r Awdurdod nawr gynhyrchu Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd a fydd yn traethu amcanion gwelliant mewnol ac allanol yr Awdurdod. Yn dilyn trafodaethau gyda'r gweithgor Cynllun Lleihau Risg a chytundeb gan yr Awdurdod yn y cyfarfod ym mis Mawrth, bydd yr amcanion gwelliant yn ymwneud â pharhad busnes, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cynaladwyedd a materion amgylcheddol. Fe ddosbarthir drafft cyntaf y cynllun i aelodau unwaith y bydd wedi ei gwblhau.

4.3 Hefyd yn ofynnol mewn cysylltiad â'r cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd oedd dogfen ymgynghori, a oedd wedi ei hysgrifennu mewn iaith "hawdd ei ddarllen" er mwyn annog trafodaeth ac ymateb gan y cyhoedd. Roedd y drafft cyntaf wedi ei dosbarthu ac fe groesawyd Aelodau i rannu eu sylwadau ar y ddogfen. Y materion dan sylw oedd:

4.4 Amcan 1 - "…parhau i annog asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth gyda ni…" - angen cryfhau'r geiriad gan fod y Gwasanaeth yn barod yn cydweithio gydag asiantaethau eraill ac yn parhau i wneud hynny cymaint ag y bo modd.

4.5 Amcan 4 - a ddylid crybwyll Asiantaeth yr Amgylchedd yn benodol neu a yw'n ddigon eu cynnwys dan 'asiantaethau eraill'?

4.6 Amcan 5 -a fyddai'n bosib ailgylchu dŵr wrth ymarfer? Eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks ei bod yn dod yn hynod o anodd i ailgylchu dŵr oherwydd rheoliadau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith ar gyfer gorsaf dân newydd Wrecsam, mae ymchwil ar waith i edrych ar ffyrdd gwahanol o ddefnyddio dŵr. Hefyd, pan fydd digwyddiad yn agos at afon, fe ddefnyddir dŵr o'r ffynhonnell honno.

4.7 Amcan 6 - "cytuno i roi Cynllun Cydraddoldeb Sengl sydd yn helpu i ddiogelu pobl rhag cael eu rhoi dan anfantais yn annheg oherwydd eu……' cais i ychwanegu'r iaith Gymraeg i'r rhestr.

4.8 **Penderfynwyd nodi:**

**(i) y caiff y Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd ei ddosbarthu ar ddyddiad hwyrach;**

**(ii) y bydd newidiadau i ddrafft gyntaf y ddogfen ymgynghorol yn cael eu creu yn dilyn y materion a drafodir uchod, ac y caiff y fersiwn derfynol ei chyflwyno i'r Awdurdod yn y cyfarfod ym mis Mehefin**

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Cafodd y ddogfen monitor perfformiad ei chyflwyno er mwyn rhoi gwybod i Aelodau am weithgaredd a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr Aelodau fod y ffigurau a gyflwynwyd wedi eu harchwilio a'u bod yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Medi a Mis Rhagfyr 2009. Amlygodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y materion canlynol:

5.3 Mae digwyddiadau megis tanau damweiniol i annedd sydd yn arwain at farwolaeth neu anaf wedi gostwng yn gyson, creda'r Swyddogion fod hyn yn rhannol o ganlyniad i waith ychwanegol a wnaed ym maes diogelwch cymunedol.

5.4 Cynnydd bychan yn nifer y Tanau Simdde, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i amlygu peryglon simneiau heb eu hysgubo.

5.5 Roedd yn foddhaol gweld fod gostyngiad yn niferoedd y tanau damweiniol, creda'r Swyddogion fod hyn yn rhannol o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd yn y maes hwn.

5.6 Mae cynnydd bychan yn y tanau wedi eu cyfyngu i'w tarddle, a gostyngiad mewn anafiadau. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol mewn mynychu tanau lle nad oedd larymau mwg yn gweithio neu le nad oedd dim larymau mwg o gwbl yn yr eiddo. Fe ymddengys bod y Gwasanaeth yn mynychu tanau mewn cartrefi lle mae pobl yn llai ymwybodol o beryglon ac er bod yr archwiliadau tân yn y cartref yn llwyddiannus, mae'r Gwasanaeth angen canolbwyntio ar dargedu'r rheiny sydd yn llai ymwybodol o'u diogelwch nhw eu hunain.

5.7 Gofynnodd y Cyng. M Ll Davies am alwadau diangen gan larymau tân awtomatig ac os oedd yn bosib peidio â mynychu os oedd y galwadau hyn yn digwydd o'r un adeilad dro ar ôl tro. Cadarnhaodd Prif Swyddog Tân Claydon fod y Gwasanaeth yn rhagweithiol gyda rhai o'r adeiladau mwyaf, er enghraifft, Prifysgol Bangor sydd wedi sefydlu cyfundrefn i ddirwyo myfyrwyr sydd wedi achosi i'r larymau ganu yn ddiangen. Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod yr Awdurdod yn 2007 wedi trafod dilyn yr un drefn â Swydd Rhydychen a oedd hefyd wedi derbyn nifer o alwadau oherwydd larymau mwg awtomatig oherwydd nifer y sefydliadau addysgol. Eu hymateb hwy oedd peidio mynychu galwadau gan Larymau Mwg Awtomatig oni bai fod galwad 999 wedi ei gwneud. Ar yr adeg, roedd yr Awdurdod wedi ystyried dilyn y drefn hon, ond penderfynwyd dilyn cod ymarfer Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân.

5.8 Cynigodd y Cyng. Davies fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol er mwyn ystyried a fyddai proses Swydd Rydychen yn addas i'w ddefnyddio yng Ngogledd Cymru. Cefnogodd y Cyng. T Roberts y cynnig hwn.

5.9 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r wybodaeth a gynigwyd yn yr adroddiad monitor perfformiad; a**

**(ii) gofyn am adroddiad ar y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer larymau tân awtomatig yn Swydd Rydychen.**

6 SYSTEM DATBLYGIAD PERSONOL INTEGREDIG A CHOFNODION DATBLYGIAD PERSONOL

6.1 Cyflwynwyd adroddiad er mwyn rhoi gwybod i Aelodau am drefniant cofnodi perfformiadau diffoddwyr tân yn ddiogel a chymwys. Mae'r system o gofnodi'r hyfforddiant a gynigir i ddiffoddwyr tân wedi ei sefydlu ers rhai blynyddoedd a fe'i gwelir yn llawlyfr fframwaith a staff y Gwasanaeth. Nodwyd fod Cofnodion Datblygiad personol wedi bod yn rhan allweddol o adroddiad arolwg Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

6.2 Mae'r System Datblygiad Personol Integredig yn strategaeth a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn 2001. Yn system sydd yn sicrhau ansawdd mae System Datblygiad Personol Integredig yn bodloni arweinid arferion da ar ddysgu a datblygu fel y cynhwysir yn nogfen Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Rheolaeth Iechyd a Diogelwch Llwyddiannus' HSG(65).

6.3 Yn 2009-2010 fe fuddsoddodd y Gwasanaeth mewn e-ddysgu a buddsoddi arian mewn System Recordio Datblygiad Personol electronig ar y we (a adnabyddir fel PDRPro) . Roedd cyfanswm yr arian a fuddsoddwyd yn y system electronig yn llai na chost prynu copïau niferus o lawlyfrau.

6.4 Mae'r elfen 'LearnPro' wedi ei rhoi ar waith mewn gorsafoedd llawn amser a'r adrannau personél yn y gorsafoedd hynny. Roedd diffoddwyr tân yn gallu mynd at eu cofnodion a chael mynediad at y system drwy'r rhyngrwyd, roedd hyn yn cwrdd â cheisiadau blaenorol gan ddiffoddwyr tân i gael mynediad at system o'r fath yn eu cartrefi.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 CYNLLUN GWEITHREDU AROLWG IECHYD A DIOGELWCH

7.1 Cafodd yr adroddiad ei chyflwyno i roi gwybod i Aelodau am gynllun gweithredu arfaethedig a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth i gwrdd ag argymhellion a sylwadau gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn eu harolwg a'r adroddiad dilynol ar y Gwasanaeth.

7.2 Eglurodd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn ogystal â'r argymhellion, wedi sylwi'n benodol ar faterion eraill a chafodd cynllun gweithredu ei llunio i fynd i'r afael â'r sylwadau hynny yn ogystal. Gobeithiwyd y byddai'r gweithredoedd wedi eu cwblhau erbyn Awst 2010.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 SAFONAU GWEINI PEIRIANT AG YSGOL AC ESGYNLAWR

8.1 Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am benderfyniad gan Aelodau pa un ai y dylid ail edrych ar y safonau gweini o 20 munud a fabwysiadodd yr Awdurdod mewn perthnasedd â Pheiriannau ag Ysgol ag Esgynlawr.

8.2 Yn 2010 ni fydd y Peiriant ag Ysgol ag Esgynlawr a leolir yng ngorsaf dân Wrecsam bellach mewn cyflwr ddigon da i gael ei ddefnyddio; rhoddodd hyn y cyfle i Aelodau adolygu'r safonau gweini yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod yn 2006. Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu mabwysiadu safon gweini o 30 munud yna gall niferoedd y Peiriannu Cyrraedd yn uchel leihau.

8.3 Mae'r Gweithgor Cynllun Lleihau Risg wedi trafod y mater ymhellach a chawsant wybodaeth gefndirol ar y materion, hanes adleoli'r adnodd, canlyniadau pryniant newydd a'r gost dybiedig ar y gyllideb refeniw o oddeutu £600,000 petai Peiriant ag Ysgol ag Esgynlawr newydd yn cael ei brynu. Mae'r wybodaeth hyn hefyd wedi ei rannu gyda holl aelodau'r Panel Gweithredol.

8.4 Yn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd na fyddai lleihad mewn staffio petai penderfyniad i beidio â phrynu Peiriant ag Ysgol ag Esgynlawr newydd yn lle'r hen.

8.5 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, I:**

**(i) gytuno i argymell i'r Awdurdod newid y safonau gweini i 30 munud ac o ganlyniad peidio â phrynu Peiriant ag Ysgol ag Esgynlawr newydd yn lle'r hen; a**

**(ii) gofynnodd yr Aelodau am adroddiad yn cynghori ar leoliadau posib ar gyfer y Peiriannau ag Ysgol ag Esgynlawr sy'n weddill ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.**

9 GORSAF DÂN GYMUNEDOL Y RHYL

9.1 Cyflwynwyd adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau fod Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl wedi bod ar agor ers 18 mis. Roedd y cyntaf o'i math yng Nghymru a'r syniad gwreiddiol oedd gweddnewid gorsaf dân weithredol draddodiadol i orsaf flaenweithgar, a fyddai'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned. Gan fod y Cynulliad wedi cyfrannu tuag at gostau'r orsaf fe'i gwnaed yn gost effeithiol yn hytrach na diweddaru gorsaf dân a oedd mewn bodolaeth yn barod.

9.2 Eglurodd y Prif Swyddog Tân fod adroddiad wrthi'n cael ei pharatoi am drefniadau partneriaeth, ymgysylltu â'r gymuned, graddfa feddiannaeth a chynnyrch incwm yr orsaf. Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i ystyried pa wybodaeth ychwanegol y byddant am gael ei gynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad yn cael ei rhannu gyda'r Cynulliad a chynghorodd y Prif Swyddog Tân y byddai'n sicrhau y byddai hyn yn rhan o agenda y cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog, Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân er mwyn dynodi llwyddiant y fenter.

9.3 Rhoddodd Colin Hanks Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wybod i aelodau ei fod yn y cyfnod cynnar o drefnu cyngerdd gyda chôr meibion yng Ngorsaf Gymunedol y Rhyl i'w gynnal ar Dachwedd 12fed. Byddai'r enillion yn mynd tuag at Elusen y Diffoddwyr Tân.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cynnal y cyfarfod nesaf y panel gweithredol yn yr Orsaf Gymunedol; a**

**(ii) nodi bwriad o gyflwyno'r adroddiad cynnydd yng nghyfarfod nesaf y Panel gweithredol.**

RHAN II

10 RHAGLEN GYFALAF

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ddiweddaru Aelodau ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau. Amlygodd Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, y materion canlynol un yr adroddiad.

10.2 Mae oedi gyda'r project yn Wrecsam. Fe ragwelir mai dim ond gwariant yn ystod 2010/11 a fyddai'n ymddangos ar y ffioedd ymgynghori proffesiynol a bydd tâl yn cael ei chodi am hyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Roedd cynnig i drosglwyddo'r arian dros ben i waith cyfalaf cynnal a chadw wedi ei drefnu. Roedd y rhaglen broject ddiweddaraf yn dynodi y byddai'r orsaf dân ac ambiwlans newydd wedi ei chwblhau erbyn Mawrth 2012 yn dibynnu ar dderbyn sêl bendith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddim hwyrach na mis Gorffennaf 2010.

10.3 Digwyddodd methiant syfrdanol i grid drydanol yn y Rhyl y flwyddyn ddiwethaf ac fe fethodd uned a generadur y Cyflenwad Trydan Anhoradwy yn Ystafell yr Adeilad Rheoli Eilaidd â gweithio i gyflenwi pŵer dros dro. Achoswyd colled ynni am 2 awr yn ystafelloedd offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yr adeilad. Yn dilyn hyn cafwyd ymchwiliad i rwydwaith fewnol yr adeilad a chanfuwyd fod y batris UPS wedi methu, canfuwyd hefyd fod oes y batris yn cwtogi gan nad oedd system tymheru yn yr ystafell offer.

10.4 Roedd cais i ddiweddaru rhwydwaith mewnol Ystafell yr Adeilad Rheoli Eilaidd a leolir yn y Swyddfa Diogelwch Sirol yn y Rhyl. Mae parhad dibynadwyedd offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Gwasanaeth a'r Adeilad Rheoli Eilaidd yn dibynnu ar y rhwydwaith mewnol hwn. Fe baratowyd adroddiad dichonoldeb ar waith hanfodol gyda swm tybiedig o at £135,000.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r diweddariad ynghylch y rhaglen gyfalaf; a**

**(ii) chymeradwyo trosglwyddo £500,000 o gost project gorsaf dân Wrecsam tuag at waith ar y rhwydwaith mewnol yn Y Rhyl a'r rhaglen cynnal a chadw cyfalaf sydd wedi eu trefnu ar gyfer adeiladau'r Gwasanaeth.**